# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

**Y Caban**
**Ysgol Rhydypennau**
**Bow Street**
**Aberystwyth**
**SY24 5AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/06/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**_Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021._**
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Cylch Meithrin Rhydypennau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Laura Blakemore |
| Lleoedd cofrestredig | 15 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual Insert<br>17 Hydref 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Manual Insert<br>Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Meithrin Rhydypennau. Mae ganddynt ymdeimlad hyfryd o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Mae'r plant yn cael cynnig dewisiadau da ac yn gwneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent am ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gynnes, ac yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau eu gweithgareddau. Maent yn teimlo'n gartrefol ac yn ddiogel, gan feithrin cysylltiadau cryf â'r staff gofal.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn meddu ar lefel uchel o gymwysterau ac yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn teimlo'n hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff gofal yn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu'n llawn. Maent yn asesu galluoedd y plant, gan ddarparu gweithgareddau sy'n hybu annibyniaeth a chynnydd unigol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad hwn fesurau ar waith er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae ardaloedd chwarae ar gael i'r plant chwarae dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant a'i fod yn eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiad er mwyn ysgogi eu dychymyg a'u diddordeb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn newydd i'r rôl, ac mae ganddynt weledigaeth arloesol ar gyfer y gwasanaeth ac yn ei reoli'n gymharol dda. Maent yn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu cefnogi. Nid yw'r system ar gyfer goruchwylio ac arfarnu'r staff gofal ar waith eto.

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir ac mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Llesiant

Mae'r plant yn hapus, yn mynegi brwdfrydedd ac yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff. Mae'r plant yn gyfarwydd â'i gilydd ac mae ganddynt ffrindiau. Maent yn chware'n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Er enghraifft, mae llawer o chwerthin wrth i'r plant ymgymryd â gweithgaredd yn yr ardal chwarae rôl dan do. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn hyderus, gan gyfleu eu hanghenion mewn amrywiaeth o ffyrdd, ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ac yn ymateb yn briodol. Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, er enghraifft, dewis pa weithgareddau i chwarae â nhw a chyda phwy i eistedd yn ystod amser byrbryd.

Mae gan y plant ymdeimlad cadarn o berthyn. Maent yn gyfarwydd â'r trefniadau, hyd yn oed o ystyried yr arferion glanhau a hylendid ychwanegol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Maent yn golchi eu dwylo ar yr adegau priodol ac yn helpu i dacluso'r teganau ar ôl eu defnyddio. Mae ganddynt gydberthnasau cadarn â'r staff gofal ac maent yn mwynhau eistedd yn agos atynt, yn ogystal ag ar eu gliniau ystod amser gweithgareddau. Er enghraifft, wrth wisgo'r doliau ar y carped dan do ac yn ystod amser stori yn yr awyr agored.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad o'u chwarae a'u dysgu. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt a thasgau o dan arweiniad y staff, ac yn canolbwyntio arnynt am gyfnodau priodol o amser. Er enghraifft, paentio lluniau torri o fwcedi, yn ogystal â chwblhau cardiau Sul y Tadau. Mewn ardal arall, roedd un plentyn yn canolbwyntio'n llwyr wrth edrych ar lyfr. Dangosodd y plant eu cardiau Sul y Tadau roeddent wedi'u creu i ni.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i feithrin eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, er enghraifft defnyddio'r step er mwyn cyrraedd y sinc i olchi eu dwylo, yn ogystal â thacluso teganau ac adnoddau. Maent yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol, ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd golchi dwylo'n rheolaidd. Mae'r plant yn cael eu cymell yn naturiol i ddewis eu gweithgareddau chwarae o'u gwirfodd ac yn symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Mae'r plant yn meithrin ymdeimlad o falchder o'u cyflawniadau, ac yn gwenu wrth iddynt dderbyn canmoliaeth gan y staff gofal.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r rhan fwyaf o'r staff gofal yn meddu ar ddealltwriaeth lawn o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer hybu ffyrdd iach o fyw a diogelwch personol ac yn eu rhoi ar waith. Ar y cyfan, maent yn dilyn y canllawiau, y polisïau a'r asesiadau risg o ran mesurau amddiffynnol, ac yn eu rhoi ar waith. Maent yn glanhau ac yn diheintio eu cyfarpar yn ddyddiol/wythnosol, yn ogystal â chylchdroi'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Nid ydynt bob amser yn dilyn yr arferion glanhau yn drylwyr, er enghraifft, nid oeddent yn glanhau'r bwrdd cyn cael bwyd. Maent yn dilyn arferion golchi dwylo yn drylwyr ac yn rheolaidd, ac mae'r staff gofal yn annog neu'n helpu'r plant i wneud yr un peth.

Mae hyfforddiant amddiffyn plant a chymorth cyntaf pob aelod o'r staff gofal yn gyfredol. Maent yn gwneud cofnodion perthnasol o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn glir. Fodd bynnag, roedd rhai llofnodion gan y rhieni a'r staff gofal ar goll. Roedd trafodaethau â'r staff gofal yn dangos bod y rhan fwyaf ohonynt yn deall bod angen dilyn arferion diogelu da, ond nid oedd pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Atal na'r weithdrefn i'w dilyn os gwneir honiad yn erbyn y person â chyfrifoldeb. Mae'r staff gofal yn dilyn y weithdrefn newid cewynnau fel yr amlinellir yn y polisi, ac yn gwisgo menig a ffedogau wrth ddiwallu anghenion personol y plant ac wrth weini bwyd.

Mae staff profiadol a chymwys yn gofalu'n effeithiol am y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson er mwyn i'r plant fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau. Maent yn defnyddio canmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad da. Ni welsom unrhyw ymddygiad amhriodol. Mae'r staff gofal yn ymateb yn gyson. Maent yn gwrando ar farn y plant ac yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a charedig.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff gofal yn cytuno ar thema ac yn cynllunio rhai gweithgareddau sy'n addas ar gyfer y plant. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymgorffori meysydd dysgu a sgiliau yn y gwaith cynllunio. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn asesu cynnydd y plant. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o hyn yn ystod ein hymweliad.

Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda a'u bod yn gweithio'n dda fel rhan o'r tîm. Mae'r staff gofal yn defnyddio'r Gymraeg â'r plant wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyfri, ac wrth roi canmoliaeth a chyfarwyddiadau.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r staff yn rheoli mynediad i'r safle drwy sicrhau bod y giât ar glo. Mae ffens o gwmpas yr ardal awyr agored. Mae mesurau diogelwch trylwyr yn sicrhau bod trefniadau mynediad i'r lleoliad ac o'r lleoliad yn gadarn a bod y plant yn ddiogel gan na all unrhyw un ddod i mewn i'r lleoliad na'i adael heb yn wybod i aelod o'r staff. Mae'r staff hefyd yn cofnodi gwaith cynnal a chadw ac yn cadw rhestr o ymwelwyr â'r cylch meithrin. Nid yw pob gwiriad o'r cyfarpar yn gyfredol, er enghraifft mae angen diweddaru'r profion PAT. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym nad oedd y rhain wedi cael eu cynnal o ganlyniad i'r pandemig. Roedd gan y person â chyfrifoldeb asesiadau risg ar waith yn ystod yr arolygiad, ac roedd y rhain wedi cael eu diweddaru i gynnwys mesurau COVID-19. Roedd yr ardal paratoi bwyd yn cael ei chadw'n lân ac yn daclus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod arferion glanhau trylwyr ar waith er mwyn cynnal arferion hylendid a dulliau rheoli heintiau da. Mae polisïau newydd a diwygiedig ar waith er mwyn lleihau lledaeniad heintiau, oherwydd COVID-19.

Mae'r ysgol yn cynnal ymarferion tân bob mis. Fodd bynnag, nid yw'r staff gofal bob amser yn eu cofnodi. Gwelsom gofnodion un o'r ymarferion tân.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi datblygu'r ardal awyr agored er mwyn darparu gofod dysgu a chyfleoedd i'r plant archwilio'r ardal. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys teganau adeiladu, offer dringo, chwarae rôl ac ardal i chwarae ar deganau reidio. Mae'n cynnwys ardal awyr agored sy'n addas ym mhob tywydd. Maent hefyd wedi creu ardal amlsynhwyraidd gan ddefnyddio rhisgl, cerrig a phlanhigion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu o ansawdd da sy'n briodol yn ddatblygiadol i sicrhau bod amrywiaeth a dewis da ar gael i'r plant. Maent hefyd yn sicrhau bod digon o adnoddau o'r fath ar gael. Maent yn darparu adnoddau ysgogol i bob oedran a phob cam datblygiadol er mwyn meithrin sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a sgiliau mathemategol drwy deganau adeiladu, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau byd bach a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn newydd i'r rôl ac yn ymrwymedig i welliannau parhaus. Mae ganddynt weledigaeth arloesol ar gyfer dyfodol eu busnes, ac maent yn rhannu'r weledigaeth honno â rhieni a gofalwyr y plant.  Mae'r bobl sy'n rheged y lleoliad yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau gofynnol ar waith ac yn adlewyrchu ymarfer cyfredol ar y cyfan. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym ei fod wrthi'n adolygu ei bolisïau a'i weithdrefnau. Yn ystod yr ymweliad, nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan nad oedd wedi rhoi gwybod i AGC am newidiadau arweinyddiaeth, nid oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac nid oedd system ar waith i'r holl staff gael eu goruchwylio a'u harfarnu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli'r staff gofal yn dda ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd drefnus, er mwyn bodloni'r cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn dilyn prosesau recriwtio trylwyr er mwyn diogelu'r plant. Maent yn sicrhau bod gwiriadau addasrwydd cyfredol wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, yn rhoi gweithdrefn sefydlu dda ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff ac yn annog hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus i bob aelod o'r staff. Ni welsom unrhyw ddogfennau ar gyfer y person â chyfrifoldeb newydd yn ystod yr ymweliad, gan fod y rhain yn cael eu storio'n electronig. Cadarnhaodd y person cofrestredig fod yr holl ddogfennau a gwiriadau addasrwydd ar gael.  Dywedodd aelodau o'r staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda. Nid yw'r dulliau rheoli perfformiad cystal ar hyn o bryd, gan nad yw'r staff yn cael arfarniadau na sesiynau goruchwylio unigol. Dywedodd y person cofrestredig wrthym ei fod wedi nodi datblygiadau hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae'r hunanwerthusiad yn bwrpasol ac yn cynnig adnodd i greu cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod.  Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud trefniadau er mwyn galluogi'r rhieni, y staff a'r plant i rannu eu barn.  Maent yn ystyried unrhyw faterion a gaiff eu codi, yn eu cofnodi ac yn ymateb iddynt yn briodol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae ffeiliau'r plant yn cynnwys gwybodaeth i sicrhau bod y gofal mwyaf priodol yn cael ei roi iddynt, ond nid oedd y rhieni wedi cwblhau pob ffurflen ganiatâd angenrheidiol yn llawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth am y plant â'r rhieni bob dydd ar lafar.  Ni chawsom unrhyw adborth gan rieni'r plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1: cadw cofnodion o'r holl ymarferion tân

A2: cynllunio gweithgareddau gan ddefnyddio'r ardaloedd dysgu ac ymgorffori sgiliau

A3: cadw cofnodion o arsylwadau ar ddatblygiad y plant

A3: diweddaru'r profion PAT

A4: sychu pob arwyneb cyn gweini bwyd

A5: darparu rhagor o hyfforddiant diogelu i bob aelod o'r staff

A6: sicrhau bod yr holl gofnodion wedi'u cwblhau'n llawn, er enghraifft ffurflenni caniatâd y plant, a'r cofnodion damweiniau a digwyddiadau

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni |
|---|

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau | |
|---|---|
| nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. | |
| Nid yw'r person cofrestredig yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd nac arfarniadau blynyddol gyda phob aelod o'r staff. | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae angen gwella'r maes/meysydd a nodir uchod, ond nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ar yr achlysur hwn. Mae hyn am nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau i unioni hyn, a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/08/2021

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi